




Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion yng Nghymru, 2016/17

2 Hydref 2018
SFR 87/2018

Mae'r Datganiad yma yn adrodd ar waharddiadau parhaol a chyfnod penodol gan yr holl ddisgyblion mewn ysgolion cynradd, canol, uwchradd ac arbennig ac unedau cyfeirio disgyblion yng Nghymru. Gall waharddiadau fodd am gyfnod parhaol neu penodol.

Cyfraddau gwaharddiadau o ysgolion a gynhelir ac UCD yng Nghymru



About this release

Mae data yn cael eu dangos ar gyfer Cymru. Mae'r wybodaeth yma yn ymwneud â'r blynyddoedd academiaidd 2012/13 i 2016/17. Mae hefyd yn adrodd ar y rhesymau a roddir ar gyfer gwaharddiadau.

I gael dadansoddiad mwy manwl o gynnwys y datganiad yma, gwelwch y tablau cysylltiedig os gwelwch yn dda. Nodwch nid ydym bellach yn cyhoeddi data ar lefel awdurdod.

Rydym yn croesawu adborth ar ffurf newydd y datganiad yma (gwelwch y cefn am fanylion).

Yn cyd-fynd a'r datganiad yma:

[Tablau manwl](#)

[Nodiadau technegol a](#)

[Gwybodaeth Allweddol am](#)

[Ansawdd](#)



Mae cyfradd y **gwaharddiadau parhaol** fesul 1,000 o ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir ac UCD wedi cynyddu am y tro cyntaf ers 2011/12 (0.4 o waharddiadau fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2016/17).



Mae cyfradd y **gwaharddiadau cyfnod penodol (5 diwrnod neu lai)** wedi cynyddu dros y tair blynedd diwethaf (34.4 gwaharddiad cyfnod penodol (5 days neu lai fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2016/17)



Yn 2016/17 roedd 1.9 **gwaharddiad cyfnod penodol (mwy na 5 diwrnod)** fesul 1,000 o ddisgyblion.

Math o Ysgol, 2016/17

- Ysgolion arbennig oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnod penodol o 5 diwrnod neu lai a'r gyfradd uchaf o waharddiadau cyfnod penodol mwy na 5 diwrnod, tra roedd yn isaf yn ysgolion cynradd.
- Ysgolion canol oedd â'r gyfradd uchaf o waharddiadau parhaol.

Hawl i brydau ysgol am ddim (FSM)

Mae'r gyfradd o waharddiadau parhaol a chyfnod penodol (5 diwrnod neu lai a mwy na 5 diwrnod) yn gyson (o leiaf tair gwaith) yn uwch ar gyfer disgyblion sydd â hawl i FSM na'r rhai sydd a dim hawl yn y cyfnod 2012/13 i 2016/17.

Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

- Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy oedd a'r gyfradd uchaf o waharddiadau allan o ddisgyblion gydag AAA ym mhob blwyddyn a phob math o waharddiad.
- Mae gan ddisgyblion gydag AAA raddau uwch o waharddiadau na disgyblion hen AAA.


Cefndir ethnig

- Rhwng 2012/13 a 2016/17, roedd y gyfradd uchaf o bob math o waharddiad gan ddisgyblion o gefndir ethnig "gwyn".
- Disgyblion gyda chefnidir ethnig o 'Tsieineaidd neu Tsieineaidd Prydeinig' sydd gyda'r gyfradd isaf o waharddiadau, gyda dim gwaharddiad dros y ddwy flynedd diwethaf.

Rhesymau mwyaf cyffrdin ar gyfer gwaharddiadau, 2016/17

Mae'r siart yn cynnwys yr holl waharddiadau parhaol a chyfnod penodol.

- Y rheswm mwyaf cyffredin ond un dros waharddiadau oedd 'ymddygiad aflonyddgar parhaus'
- Yr ail reswm mwyaf cyffredin oedd 'Cam-drin geiriol/ymddygiad bygythiol yn erbyn oedolyn'
- **'ymddygiad aflonyddgar parhaus'** oedd y rheswm mwyaf cyffredin ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol (5 diwrnod neu lai) a gwaharddiadau cyfnod penodol (dros



5 diwrnod), gyda 21.9 y cant a 20.3 y cant o'r holl waharddiadau cyfnod penodol yn y drefn honno.

- Y rheswm mwyaf cyffredin ar gyfer gwaharddiadau parhaol oedd **'ymosodiad corfforol ar oedolyn'** gyda 18.2 y cant o'r holl waharddiadau penodol.

Diffiniadau

Mathau o waharddiadau a diffiniadau eraill

Mae **gwaharddiad parhaol** yn cyfeirio at ddisgybl sy'n cael ei wahardd ac mae ei enw'n cael ei ddileu o gofrestr yr ysgol. Byddai disgybl o'r fath wedyn yn cael ei addysgu mewn ysgol arall neu drwy ddarpariaeth o ryw fath arall.

Mae **gwaharddiad cyfnod penodol** yn cyfeirio at ddisgybl sy'n cael ei wahardd o ysgol ond sy'n aros ar gofrestr yr ysgol honno oherwydd y disgwylir iddo ddychwelyd ar ôl i gyfnod y gwaharddiad ddod i ben.

Mae **symudiad wedi'i reoli** yn drefniant lle mae rhieni disgyblion sydd mewn perygl o gael eu gwahardd yn cytuno ag ysgolion ac awdurdodau lleol ei bod er budd pennaf eu plentyn gael ei dynnu o gofrestr yr ysgol bresennol a'i symud i sefydliad addysgol arall.

Data Unedau Cyfeirio Disgyblion (UCD)

Dyma'r drydedd flwyddyn i ni gasglu data gwaharddiadau lefel disgybl o UCDAu, a'r ail flwyddyn i ni gynnwys y data yma yn y datganiad. Oherwydd hyn, dylech gymryd ofal wrth gymharu cyfradd y gwaharddiadau ar gyfer ysgolion a gynhelir a UCDAu gyda blynyddoedd blaenorol.

Mae rhagor o fanylion

Mae'r ddogfen hon ar gael yn yma: <http://llyw.cymru/statistics-and-research/permanent-fixed-term-exclusions-from-schools/?lang=cy>

Mae Lloegr yn cyhoeddi data gwaharddiadau ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a ariennir gan y wladwriaeth yn y datganiad ystadegol o'r enw '[Permanent and fixed-period exclusions in England: 2015 to 2016](#)'.

Mae'r Alban yn cyhoeddi data gwaharddiadau ar gyfer ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig a gynhelir yn y bwletin ystadegol '[Summary statistics for schools in Scotland - No. 6: 2015 Edition](#)'.

Mae Gogledd Iwerddon yn cyhoeddi nifer y [disgyblion sy'n cael eu diarddel neu eu diarddel dros dro o ysgolion cynradd, ôl-gynradd ac arbennig](#).

Eleni nid ydym wedi cyhoeddi y data ar lefel awdurdod oherwydd niferoedd bychain o waharddiadau parhaol ond mae'r data ar gael ar gais.

Diweddariad nesaf

Medi 2019 (dros dro)

Fe fydd y diweddariad nesaf yn cynnwys adroddiad ar gyfer y flwyddyn academaidd 2017/18.

Hoffem gael eich adborth

Rydym yn croesawu unrhyw adborth am unrhyw agwedd ar yr ystadegau hyn. Anfonwch e-bost at ystadegau.ysgolion@llyw.cymru.

Drwydded Llywodraeth Agored

Mae'r holl gynnwys ar gael o dan y [Drwydded Llywodraeth Agored v3.0](#) oni nodir yn wahanol.

